**AC-01-03(cof)**

# Y PWYLLGOR ARCHWILIO

## COFNODION

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 23 Ionawr 2003 |
| **Amser:** | 14.00pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru,<br>Bae Caerdydd |

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | **Aelodau** | |
| | Dafydd Wigley (Cadeirydd) | Caernarfon |
| | Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| | Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| | Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| | Janice Gregory | Ogwr |
| | Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| | Alison Halford | Delyn |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |

**Tystion**

| | |
|---|---|
| Syr Jon Shortridge | Yr Ysgrifennydd Parhaol |
| David Richards | Prif Swyddog Cyllid |
| Steve Martin | Prif Weithredwr, Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant |
| Richard Hirst | Cyfarwyddwr Cyllid, Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant |
| David Powell | Swyddog Cydymffurfio'r Cynulliad |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Sir John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Lew Hughes | Dirprwy Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Gillian Body | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Mike Usher | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Ian Summers | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |

| | |
|---|---|
| Claire Bennett | Clerc y Pwyllgor |
| Lara Date | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**14.00 – 14.05**

**Eitem 1**

**Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant.**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. Datganodd Eleanor Burnham AC fuddiant mewn perthynas ag Eitem 2 ar yr agenda, am ei bod, cyn ymuno â'r Cynulliad yn 2001, wedi gweithio ar gontract fel athrawes yn TEC

Gogledd Cymru'n cynnig rhaglen mynediad i bobl ifanc. Nododd yr aelodau'r datganiad ac roeddent yn hapus i barhau â'r cyfarfod.

**14.05 – 15.30**

**Eitem 2**

**Sesiwn clywed tystiolaeth – Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant: Cyfrifon y cyfnod yn dod o ben ar 31 Mawrth 2002**

**Papur: AC-01-03(p1)**

1. Clywodd y pwyllgor dystiolaeth gan Mr Steve Martin a Mr Richard Hirst o Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant a'r Ysgrifennydd Parhaol, Syr Jon Shortridge, a David Richards, Prif Swyddog Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mewn perthynas ag adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ar gyfer y cyfnod yn dod i ben ar 31 Mawrth 2002.
2. Nododd y Cadeirydd mai'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ddylai ymdrin ag unrhyw faterion yn ymwneud â pholisi a oedd yn deillio o'r adroddiad.

**15.40 – 16.59**

**Eitem 2 (Parhad)**

**Sesiwn clywed tystiolaeth – Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant: Cyfrifon y cyfnod yn dod o ben ar 31 Mawrth 2002**

3. Ceir trawsgript gair-am-air o'r eitem hon yn Atodiad A y cofnodion.

**Pwyntiau Gweithredu**

Cytunwyd y byddai'r Ysgrifennydd Parhaol yn paratoi nodyn i'r pwyllgor yn cadarnhau'r pwyntiau a ganlyn:-

- Pa ganllawiau oedd yn bod gan Swyddfa'r Cabinet ynghylch sefydlu cyrff cyhoeddus anadrannol (NDPB), ac a oedd y canllawiau'n gwneud argymhellion ynghylch rhedeg cyrff o'r fath ar ffurf gysgodol.
- Manylion gohebiaeth oddi wrth John Taylor at Neil Thomas ynghylch pryderon am reolaeth ariannol yng Nghyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant, ac i ba raddau yr ystyriwyd y rhybuddion yn yr ohebiaeth honno.
- Sefyllfa'r Cynulliad o ran Cyswllt Gwaith (paragraffau 36 a 37 yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol) ac a fyddai'r mater hwnnw wedi'i ddatrys erbyn 31 Mawrth 2003.

- Canllawiau'r Cynulliad (Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol a chanllawiau eraill) i'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ar rôl a chyfrifoldebau Cadeirydd y corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

Cytunwyd y byddai Mr Steve Martin o Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant yn paratoi nodyn i'r pwyllgor yn cadarnhau'r pwyntiau a ganlyn:-

- I ba raddau y gallai Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ddangos bod y 21 o gontractau y cyfeiriwyd atynt yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnig gwerth am arian i goffrau'r wlad.

**16.59 –17.23**

**Eitem 3**

**Papurau i'w nodi**

**Papur: AC 01-03(p2) -** Nodyn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ail-strwythuro'r GIG

1. Yn y cyfarfod diwethaf gofynnwyd i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu papur yn rhoi gwybod i'r pwyllgor am agweddau ar ei adolygiad o gostau ailstrwythuro'r GIG y byddai'n fuddiol i'r pwyllgor eu trafod. Roedd y papur yn tynnu sylw at dri mater allweddol yn ymwneud â rheolaeth ariannol, ac awgrymodd yr Archwilydd Cyffredinol efallai y byddai'r pwyllgor am holi cyfarwyddwr GIG Cymru ynghylch ailstrwythuro't GIG pan fyddai'n ymddangos gerbron y pwyllgor i drafod materion eraill yn ei gyfarfod ar 27 Mawrth.
2. Trafododd y pwyllgor hyn, a chytunodd mai'r cyfarfod ar 27 Mawrth fyddai'r cyfle mwyaf priodol.

**Pwynt Gweithredu**

- Byddai cyfle i'r pwyllgor holi Cyfarwyddwr GIG Cymru ar agweddau ar adolygiad Archwilydd Cyffredinol Cymru o reoli costau ailstrwythuro'r GIG yn y cyfarfod ar 27 Mawrth.

**Papur: AC 01-03(p3) -** Asesiad Archwilydd Cyffredinol Cymru o ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar ‘Cronfeydd Strwythruol – Mwyhau’r Buddion i Gymru'

**AC 01-03(p4) -** Ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor ar 'Cronfeydd Strwythurol – Mwyhau’r Buddion i Gymru'

1. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol ei bod yn ymddangos bod diffyg brwdfrydedd ac ymrwymiad i ymateb y Cabinet i argymhellion y pwyllgor. Byddai'n cynnal astudiaeth

arall yn dilyn rhoi argymhellion y pwyllgor ar waith, yn rhan o'i raglen gwerth am arian. Nododd y pwyllgor y gellid estyn cylch y cronfeydd strwythurol am flwyddyn arall, a'i bod yn bwysig parhau i fanteisio ar yr holl arian sydd ar gael.

**Pwynt Gweithredu**

- Byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru'n cynnal astudiaeth ddilynol gwerth am arian ar ddarparu cronfeydd strwythurol Ewrop ac yn edrych yn benodol ar y camau a gymerwyd i roi argymhellion adroddiad y Pwyllgor ar waith.

**17.23 – 17.25**

**Eitem 4: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

1. Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf.

**17.25 - 17.30**

**Eitem 5**

**SESIWN BREIFAT**

**Adroddiad Drafft y Pwyllgor ar 'OSIRIS: Cytundeb PFI am dechnoleg gwybodaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru'**

**Papur:** AC 01-03(p5)

1. Penderfynodd y pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn iddo ystyried ei adroddiadau drafft ar yr ymchwiliad uchod, yn unol â Rheol Sefydlog 8.21 (vi):

   *Gall pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:*

   *(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson.*

2. Cytunodd y pwyllgor ar yr adroddiad drafft.
3. Byddai'r pwyllgor yn cyfarfod nesaf ar 27 Chwefror 2003 am 14.00.
4. Daeth y cyfarfod i ben am 17.30.